

Meini Prawf Bandio Athrawon

Caiff cyflogau athrawon eu diffinio'n unol â'r tri band canlynol:

Band 1	Bydd y mwyafrif o athrawon yn dod o fewn y band hwn a bydd unigolion sy'n cyflawni eu penodiad cyntaf i swydd gadeiriol yn dod i'r fframwaith graddio athrawon drwy'r band hwn fel rheol. Bydd hyn yn cynnwys rhai a ddirchefir i swydd Athro (drwy'r llwybr dyrchafu arferol i gadair bersonol) a rhai a benodir i swydd gadeiriol a hysbysebir.
Band 2	Bydd y band hwn ar gael i athrawon sydd ag enw da rhyngwladol amlwg yn eu maes, neu sydd â phresenoldeb allanol sy'n eu rhoi'n sylweddol uwch na'r hyn a ddisgwylir drwy benodiadau cadeiriol i Fand 1. Ni chaiff unigolion eu dyrchafu'n uniongyrchol i'r band hwn heb iddynt fod wedi dal swydd gadeiriol ar Fand 1 cyn hynny. Gwneir penodiadau allanol i'r band hwn yn unig lle mae gan unigolyn statws athro eisoes mewn sefydliad arall neu'n gweithio ar lefel gyffelyb mewn sector arall.
Band 3	Bydd gan athrawon a ddirchefir i'r band hwn dystiolaeth eu bod yn ffigurau academiaidd o bwys, yn enwog yn rhyngwladol ac yr ystyrir eu bod yn dod â bri sylweddol i'r Brifysgol drwy eu record gyson o lwyddiant academiaidd ar y lefel uchaf. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol felly y mae'n debygol y penodir rhywun yn uniongyrchol i'r band hwn a dim ond gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor Taliadau Uwch.

Nodir y meini prawf i bob band isod::

	YMCHWIL	ADDYSGU A DYSGU	ARWEINYDDIAETH A CHYFRANIAD EHangach
Band 1	Dylai dystiolaeth ddangos cyfran uchel o gynnyrch o ansawdd, trylwyredd a gwreiddioldeb uchel a phroffil cenedlaethol/rhyngwladol gyda thystiolaeth o effaith ac arweinyddiaeth mewn ymchwil.	Arweinyddiaeth a chyfraniad cyson ar lefel Brifysgol ac effaith ac enw da cyson ar lefel Gymreig/DU ac, yn ddelfrydol, ar lefel ryngwladol. Cael eu cydnabod yn arweinwyr ac esiamplau i'w hefelychu o fewn y Brifysgol ac yn allanol. Dylai dystiolaeth o ysgolheictod yn y maes hwn ddangos cyfran uchel o gynnyrch a ystyrir yn rhagorol o ran gwreiddioldeb, pwysigrwydd a thrylwyredd.	Tystiolaeth o arweinyddiaeth gyson fan leiaf ar lefel Brifysgol a dangos cyfraniadau ar draws ystod amcanion strategol y Brifysgol. Tystiolaeth o hwyluso, gwella ac ysbrydoli gwaith cydweithwyr ar draws yr ystod o ddyletswyddau academiaidd.

<p>Band 2</p>	<p>Cyhoeddi llyfrau neu bapurau uchel eu parch a ddangosir drwy gael eu rhoi ar restr fer am wobrau rhyngwladol.</p> <p>Traddodi prif anerchiadau mewn cynadleddau rhyngwladol o'r safon uchaf.</p> <p>Cynhyrchu incwm ymchwil sy'n gyson â'r chwarter uchaf yn y DU ar gyfer y ddisgyblaeth.</p> <p>Golygydd cyfnodolyn rhyngwladol blaenllaw yn ymwneud â'r ddisgyblaeth.</p> <p>Aelod o banel REF.</p>	<p>Arwain, ffurfio a dylanwadu ar bolisi addysgu ar lefel ryngwladol a gydnabyddir, er enghraifft, drwy gael ei benodi'n adolygydd QAA.</p> <p>Cyfraniad o bwys i ysgolheictod Addysgu a Dysgu.</p> <p>Arwain arloesi mewn addysgu a gydnabyddir gan sefydliadau perthnasol, e.e. Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol yr Academi Addysg Uwch.</p>	<p>Cychwyn ac arwain cynlluniau academaidd o bwys, e.e. cyfleusterau newydd neu greu partneriaethau.</p> <p>Safle cydnabyddedig fel arweinydd mewn disgyblaeth, a amlygir, e.e., drwy gynghori prif gynghorau cyllido.</p> <p>Arwain projectau rhyngddisgyblaethol cymhleth ar raddfa fawr.</p> <p>Cael cydnabyddiaeth bersonol ac i'r Brifysgol drwy arwain cynlluniau cydweithredol amlwg o bwysigrwydd rhyngwladol gyda phartneriaid cyhoeddus, preifat ac/neu drydedd sector.</p> <p>Cydnabyddiaeth ryngwladol o ganlyniad i lwyddiannau academaidd a record gadarn o ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol ac/neu arwain arloesi.</p> <p>Cadeirio sefydliadau, byrddau etc. Cymreig / cenedlaethol o bwys.</p>
<p>Band 3</p>	<p>Cael eu cydnabod yn arweinwyr byd am ymchwil ac ysgolheictod o fewn y ddisgyblaeth o ran gwreiddioldeb, pwysigrwydd a thrylwyrredd. Daw hynny i'r amlwg drwy nifer sylweddol o gyfeiriadau pwysig at y gwaith, cael eu hethol i'r cymdeithasau dysgedig pwysicaf a derbyn y gwobrau uchaf posibl.</p> <p>Cynhyrchu incwm ymchwil sy'n gyson â'r deg y cant uchaf yn y DU ar gyfer y ddisgyblaeth.</p> <p>Proffil o awdurdod rhyngwladol a ddaw i'r amlwg drwy gael gwahoddiad aml i gynghori cyrff rhyngwladol sy'n pennu agenda neu gadeirio adolygiadau annibynnol ar lefel genedlaethol.</p>	<p>Un o nifer fechan iawn o arbenigwyr byd-enwog yn y maes, gan ddenu myfyrwyr o bob cwr o'r byd.</p>	<p>Safle cydnabyddedig fel arweinydd ar lefel ryngwladol yn y ddisgyblaeth, a amlygir er enghraifft drwy gynghori llywodraeth yn gyson, gweithredu fel prif gynghorwr i gorff rhyngwladol pwysig.</p> <p>Sefydlu ac arwain projectau rhyngddisgyblaethol cymhleth ar raddfa fawr ar draws sefydliadau a ffiniau cenedlaethol.</p> <p>Un o nifer fechan iawn o arbenigwyr byd-enwog yn y maes, gan arwain at gynlluniau cydweithredol rhyngwladol pwysig.</p> <p>Ethol yn gadeirydd sefydliad academaidd rhyngwladol o bwys. Cadeirio cynhadledd fyd-eang bwysig.</p>

	Cael ei ystyried ar y lefel uchaf gan gyfoedion rhyngwladol, a hynny'n amlwg drwy anrhydeddau a gwobrau gan gymdeithasau dysgedig pwysig.		
--	---	--	--